Adran Gwaith a Phensiynau

# Nodiadau Lwfans Gofalwr

**Mae gennym lawer o wahanol ffyrdd y gallwn gyfathrebu â chi**

Os hoffech braille, Iaith Arwyddion Prydain, dolen glyw, cyfieithiadau, print bras, sain neu rywbeth arall, ffoniwch ni ar **0800 731 0297** neu ffôn testun **0800 731 5312** a dywedwch wrthym pa un sydd ei angen arnoch.

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o ffonau symudol personol a llinellau daear.

# Cynnwys

**Lwfans Gofalwr** ........ **3**

**Y nodiadau hyn** ........ **3**

**Y furfflen hon** ........ **3**

**A allaf i gael Lwfans Gofalwr?** ........ **3**

Mae angen i wladolion yr AEE a'r Swistir feddu ar statws Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE ........ **5**

**Pryd ddylwn i wneud cais?** ........ **5**

**Beth yw Lwfans Gofalwr?** ........ **6**

Sut mae Lwfans Gofalwr yn cael ei dalu? ........ 6

Sut mae fy enillion yn effeithio ar Lwfans Gofalwr? ........ 7

Sut mae addysg llawn amser effeithio ar Lwfans Gofalwr? ........ 7

A allaf gael Lwfans Gofalwr am ddarparu gofal i fwy nag un person? ........ 7

Beth fydd yn digwydd os bydd rhywun arall hefyd yn darparu gofal i'r un person? ... 7

Beth os nad wyf yn byw ym Mhrydain Fawr? ........ 8

**Sut mae Lwfans Gofalwr yn effeithio ar unrhyw fudd-daliadau eraill a gaf?** ........ **8**

Os ydych yn gohirio hawlio eich Pensiwn y Wladwriaerth ........ 9

Sut mae Lwfans Gofalwr yn effeithio ar fudd-daliadau'r person rwy'n darparu gofal iddo? ........ 10

**Cyfraniadau Yswiriant Gwladol (YG)** ........ **10**

**Credyd Gofalwr** ........ **11**

**Bonws Nadolig** ........ **11**

**Sut i gysylltu â'r Uned Lwfans Gofalwr** ........ **11**

Ble i gael mwy o help a chyngor ........ 12

## Trin pobl yn deg

Rydym wedi ymrwymo i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac i drin pobl yn deg. I ddarganfod mwy am y gyfraith hon, chwiliwch am 'Cydraddoldeb' ar **www.gov.uk/cymraeg**

# Lwfans Gofalwr

Mae Lwfans Gofalwr yn fudd-dal i bobl sy'n darparu gofal rheolaidd a sylweddol i berson anabl am o leiaf 35 awr yr wythnos, ac sy'n bodloni meini prawf cymhwysedd penodol.

Y ffordd gyflymaf a hawsaf i wneud cais am Lwfans Gofalwr yw ar-lein. Gwiriwch a allwch gael Lwfans Gofalwr a gwnewch gais yn **www.gov.uk/lwfans-gofalwr**

# Y nodiadau hyn

- mae'r nodiadau hyn yn dweud mwy wrthych am Lwfans Gofalwr
- maen nhw'n dweud wrthych sut y gallai Lwfans Gofalwr effeithio ar fudd-daliadau eraill rydych chi neu'r person rydych yn darparu gofal amdano yn eu cael
- gallwch wirio a allech gael Lwfans Gofalwr trwy ddefnyddio rhestr wirio hawdd ar **dudalen 4** y llyfryn hwn. Os na allwch gael Lwfans Gofalwr, ewch i **www.gov.uk/cymraeg** i weld pa gymorth arall y gallech ei gael o bosibl.

# Y furfflen hon

- defnyddiwch y ffurflen hon i wneud cais am Lwfans Gofalwr
- chi, y gofalwr, ddylai lenwi'r ffurflen, nid y person rydych yn darparu gofal ar ei gyfer
- llenwch y ffurflen yn ofalus. Os llenwch y ffurflen drwy ddefnyddio beiro, defnyddiwch **inc du** a LLYTHRENAU BRAS
- atebwch yr holl gwestiynau ac anfonwch yr holl ddogfennau rydym wedi gofyn amdanynt
- cysylltwch â ni os na allwch lenwi'r ffurflen neu anfon y dogfennau rydym yn gofyn amdanynt, oherwydd gallai hyn ohirio'ch cais
- os oes gennych anawsterau ar eich lleferydd neu ar eich clyw, gallwch gysylltu â ni dros ffôn testun ar **0800 731 5312**. Nid yw'r gwasanaeth ffôn testun yn derbyn negeseuon o ffonau symudol
- mae galwadau i rifau **0800** am ddim o ffonau symudol personol a llinellau daear.

# A allaf i gael Lwfans Gofalwr?

**Ni allwch gael Lwfans Gofalwr os byddwch:**

- yn ennill mwy na £151 yr wythnos ar ôl treth a rhai treuliau. Gweler **tudalen 7.** Mae lefel enillion yn gywir ar adeg argraffu. Gellir dod o hyd i'r lefel enillion diweddaraf yn **www.gov.uk/lwfans-gofalwr/cymhwyster**
- mewn addysg llawn amser. Mae llawn amser yn golygu 21 awr neu fwy o astudio yr wythnos. Gweler **tudalen 7**.

Defnyddiwch y rhestr wirio cyflym hwn cyn i chi lenwi'r ffurflen.

Os gallwch dicio'r 5 datganiad i gyd, efallai y gallwch gael Lwfans Gofalwr.

☐ **Mae'r person rwy'n darparu gofal amdano yn cael un o'r budd-dalidau hyn:**

- Taliad Annibyniaeth Personol, naill ai cyfradd yr elfen bywyd bob dydd
- Taliad Anabledd Oedolion, naill ai cyfradd yr elfen bywyd bob dydd
- Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfradd ganolig neu uwch yr elfen ofal (nid yw'r elfen symudedd yn fudd-dal cymwys ar gyfer Lwfans Gofalwr)
- Taliad Anabledd Plant ar y gyfradd gofal canolig neu uwch (nid yw'r gyfradd symudedd yn fudd-dal cymwys ar gyfer Lwfans Gofalwr)
- Lwfans Gweini
- Lwfans Gweini Cyson, ar neu'n uwch na'r gyfradd uwch arferol gyda Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol, neu ar y gyfradd sylfaenol (diwrnod llawn) gyda Phensiwn Anabledd Rhyfel
- Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog
- budd-dal anabledd cyfatebol o wlad yr AEE neu'r Swistir.

☐ **Rwy'n 16 oed neu drosodd**

☐ **Rwy'n darparu gofal i berson anabl am o leiaf 35 awr yr wythnos**

Mae darparu gofal i rywun yn golygu eu helpu gyda byw o ddydd i ddydd a gofal personol.

☐ **Rwy'n byw ym Mhrydain Fawr fel arfer**

Mae Prydain Fawr yn golygu Cymru, Lloegr, a'r Alban. Gellir trin rhai aelodau o deuluoedd lluoedd EM sy'n gwasanaethu dramor fel rhai sy'n byw ym Mhrydain Fawr.

☐ **Nid oes unrhyw un arall eisoes yn cael budd-dal gofalwr am ddarparu gofal i'r person rwy'n gofalu amdano**

**Os ydych wedi ticio pob un o'r 5 blwch, gallwch wneud cais am Lwfans Gofalwr ar unwaith.**

Os ydych yn byw y tu allan i Brydain Fawr, ond yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) neu'r Swistir, a'ch bod wedi ticio'r 3 datganiad cyntaf uchod, bydd angen i chi gael eich cwmpasu gan y Cytundeb Ymadael â'r EU ac mae'n rhaid i'r DU fod yn gyfrifol am dalu'ch budd-daliadau salwch i chi gael Lwfans Gofalwr. Am fwy o wybodaeth ewch i **www.gov.uk/lwfans-gofalwr**

Mae rhestr o wledydd yr AEE ar **dudalen 8** o'r nodiadau hyn, neu ewch i **www.gov.uk/claim-benefits-abroad/where-you-can-claim-benefits**

Os ydych yn destun i reolaeth fewnfudo, ffoniwch ni ar **0800 731 0297** i ddarganfod a allwch gael Lwfans Gofalwr.

### Mae angen i wladolion yr AEE a'r Swistir feddu ar statws Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE

Mae'r Deyrnas Unedig (DU) wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd (UE). Os ydych yn wladolyn Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir, mae'n rhaid bod gennych chi ac aelodau o'ch teulu statws mewnfudo yn y DU i barhau i fyw yn y DU. Mae'n rhaid i chi a'ch teulu fod â statws hyd yn oed os ydych eisoes wedi derbyn dogfen breswylio barhaol gan y Swyddfa Gartref neu wedi bod yn byw yn y DU ers amser maith. Os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny, bydd angen i chi wneud cais am statws mewnfudo i fod yn gymwys i gael unrhyw hawliadau presennol neu newydd i fudd-daliadau.

Mae gwneud cais am statws mewnfudo yn y DU am ddim. Nid oes angen i ddinasyddion Iwerddon a'r rhai sydd â chaniatâd amhenodol i aros yn y DU wneud cais.

I gael mwy o wybodaeth ac i wneud cais am Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE ewch i **www.gov.uk/eusettlementscheme** neu ffoniwch **0300 123 7379**.

Mae angen i chi ddweud wrthym a yw'ch amgylchiadau'n newid. Am fwy o wybodaeth ewch i **www.gov.uk/hysbysu-newid-amgylchiadau-budd-daliadau**

## Pryd ddylwn i wneud cais?

Gwnewch gais nawr, os yw'r person rydych yn darparu gofal amdano eisoes yn cael unrhyw un o'r budd-dalidau a restrir ar **dudalen 4**. Os nad ydynt wedi gwneud cais am unrhyw un o'r budd-dalidau hyn eto, neu'n aros i glywed am gais, gallwch wneud cais am Lwfans Gofalwr o fewn 3 mis i'r dyddiad pryd y dyfernir eu budd-dal. Os na fyddwch yn gwneud cais mewn pryd, efallai y byddwch yn colli arian.

**Cofiwch**

Y ffordd cyflymaf a hawsaf i wneud cais am Lwfans Gofalwr yw ar-lein. Ewch i **www.gov.uk/lwfans-gofalwr**

# Beth yw Lwfans Gofalwr?

Mae Lwfans Gofalwr yn fudd-dal i bobl sy'n darparu gofal rheolaidd a sylweddol i berson anabl am o leiaf 35 awr yr wythnos, ac sy'n bodloni meini prawf cymhwysedd penodol.

Nid oes rhaid i chi fod yn perthyn i'r person rydych yn darparu gofal amdano neu'n byw gyda'r person hwnnw.

Mae'n rhaid i chi fod yn 16 oed neu'n hŷn ac yn treulio o leiaf 35 awr yr wythnos yn darparu gofal ar eu cyfer. Yn ôl gofal, rydym yn golygu eu helpu gyda gweithgareddau dyddiol fel ymolchi, gwisgo a choginio.

Os byddwch yn rhoi'r gorau i ddarparu gofal i'r person am gyfnod byr, efallai y byddwch yn dal i gael Lwfans Gofalwr. Er enghraifft, efallai y gallwch gael Lwfans Gofalwr am hyd at 4 wythnos os byddwch chi, neu'r person rydych yn gofalu amdano, yn mynd i'r ysbyty neu sefydliad meddygol tebyg.

**Ond mae'n rhaid i chi ddweud wrthym ar unwaith am unrhyw wythnos pan fyddwch yn darparu gofal i rywun am lai na 35 awr.**

Mae wythnos yn golygu o ddechrau dydd Sul i ddiwedd y dydd Sadwrn nesaf.

**Mae Lwfans Gofalwr yn drethadwy. Gall hefyd effeithio ar fudd-daliadau eraill y gallech eu cael.**

## Sut mae Lwfans Gofalwr yn cael ei dalu?

Mae Lwfans Gofalwr yn cael ei dalu i'r gofalwr, nid y person sy'n cael gofal.

Gallwn dalu eich Lwfans Gofalwr bob:

- wythnos (ymlaen llaw) neu
- 4 wythnos (wythnos ymlaen llaw a 3 wythnos mewn ôl-ddyledion).

Fel arfer byddwn yn ei dalu ar ddydd Llun.

**Mae Lwfans Gofalwr bob tro yn cael ei dalu i mewn i gyrfif,** fel cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu.

Gallwch ddefnyddio cyfrif undeb credyd ond mae'n rhaid i chi ddweud wrthym fanylion cyfrif yr undeb credyd. Bydd eich undeb credyd yn gallu eich helpu gyda hyn.

Bydd llawer o fanciau a chymdeithasau adeiladu yn gadael i chi gasglu eich arian yn Swyddfa'r Post. Byddwn yn dweud wrthych pryd y byddwn yn gwneud y taliad cyntaf a faint fydd ar ei gyfer. Byddwn yn dweud wrthych os bydd y swm a dalwn i'r cyfrif yn newid.

## Sut mae fy enillion yn effeithio ar Lwfans Gofalwr?

Pan fyddwn yn cyfrifo'ch enillion wythnosol, dim ond ar ôl i chi dalu y canlynol y byddwn yn edrych ar yr hyn rydych wedi'i ennill:

- cyfraniadau Yswiriant Gwladol (YG)
- treth incwm
- hanner unrhyw arian rydych yn ei dalu tuag at gynlluniau pensiwn personol a galwedigaethol.

Tra'ch bod yn y gwaith, rydym hefyd yn caniatáu i hyd at hanner gweddill eich enillion i dalu rhywun o'r tu allan i'ch teulu i ofalu am eich plant neu'r person rydych chi'n darparu gofal amdano.

### Treuliau

Efallai y byddwn yn gallu ystyried rhai treuliau eraill, fel treuliau y mae'n rhaid i chi eu talu i wneud eich swydd.

## Sut mae addysg llawn amser effeithio ar Lwfans Gofalwr?

Ni allwch gael Lwfans Gofalwr os ydych mewn addysg llawn amser, hyd yn oed os ydych hefyd yn darparu gofal i rywun am 35 awr yr wythnos.

Mae addysg llawn amser yn golygu 21 awr neu fwy o astudio dan oruchwyliaeth yr wythnos. Mae'r 21 awr yn cynnwys dosbarthiadau, darlithoedd, seminarau a'r amser astudio gofynnol a ddisgwylir gan y brifysgol, y coleg neu'r darparwr dysgu.

Gall hyfforddeiaethau hefyd gyfrif fel addysg llawn amser.

## A allaf gael Lwfans Gofalwr am ddarparu gofal i fwy nag un person?

Dim ond ar gyfer un person rydych yn darparu gofal y gallwch gael Lwfans Gofalwr wedi'i dalu. Ni chewch eich talu mwy os ydych y darparu gofal i fwy nag un person.

## Beth fydd yn digwydd os bydd rhywun arall hefyd yn darparu gofal i'r un person?

Os yw rhywun arall hefyd yn darparu gofal i'r un person â chi, dim ond un ohonoch sy'n gallu cael Lwfans Gofalwr ,Taliad Cymorth Gofalwyr neu swm ychwanegol o Gredyd Cynhwysol. Ni all dau berson gael Lwfans Gofalwr, Taliad Cymorth Gofalwyr neu swm ychwanegol o Gredyd Cynhwysol ar yr un pryd am ddarparu gofal i'r un person. Mae'n rhaid i chi geisio penderfynu rhyngoch chi pwy sy'n mynd i wneud cais amdano.

Os na allwch benderfynu pwy ddylai hyn fod, bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn gwneud y penderfyniad.

### Beth os nad wyf yn byw ym Mhrydain Fawr?

Mae Prydain Fawr yn golygu Cymru, Lloegr a’r Alban.

Efallai y byddwch yn dal i allu cael Lwfans Gofalwr os ydych yn byw mewn gwlad neu’n symud i wlad yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) neu’r Swistir, yn dod o dan y Cytundeb Ymadael â’r UE ac mae’r DU yn gyfrifol am dalu’ch budd-daliadau salwch.

Gwledydd yr AEE yw: Awstria, Gwlad Belg, Bwlgaria, Croatia, Cyprus, Gweriniaeth Tsiec, Denmarc, Estonia, y Ffindir, Ffrainc, yr Almaen, Gwlad Groeg, Hwngari, Gwlad yr Iâ, Iwerddon, yr Eidal, Latfia, Liechtenstein, Lithwania, Lwcsembwrg, Malta, yr Iseldiroedd, Norwy, Gwlad Pwyl, Portiwgal, Rwmania, Slofacia, Slofenia, Sbaen a Sweden.

Cysylltwch â ni i gael mwy o wybodaeth. Ein rhif ffôn yw **0800 731 0297**.

## Sut mae Lwfans Gofalwr yn effeithio ar unrhyw fudd-daliadau eraill a gaf?

Mae Lwfans Gofalwr yn cyfrif fel incwm, felly bydd unrhyw fudd-daliadau prawf modd a gewch yn cael eu lleihau os cewch Lwfans Gofalwr. Ond bydd swm ychwanegol yn cael ei gynnwys wrth gyfrifo’ch budd-daliadau prawf modd, felly ni fyddwch yn waeth eich byd yn gyffredinol. Ymhlith y budd-daliadau prawf modd yw:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm
- Credyd Pensiwn
- Credyd Cynhwysol.

Os ydych yn cael Budd-dal Tai neu ostyngiad yn eich Treth Cyngor, efallai y bydd eich cyngor yn gallu cynnwys premiwm gofalwr pan fyddant yn gweithio allan faint o fudd-dal y gallwch ei gael. Dywedwch wrth eich cyngor lleol am eich Lwfans Gofalwr i weld a allwch gael help ychwanegol.

Mae’r cap ar fudd-daliadau yn cyfyngu ar faint o fudd-dal y gall y rhan fwyaf o bobl 16 oed i oedran Pensiwn y Wladwriaeth ei gael. Nid yw rhai budd-dalidau unigol yn cael eu heffeithio, ond gallai effeithio ar gyfanswm y budd-daliadau a gewch. Mae cael Lwfans Gofalwr neu Elfen Ofal Credyd Cynhwysol yn eithrio cartref rhag cael ei gapio. Darganfyddwch fwy am y cap ar fudd-daliadau yn **www.gov.uk/cap-ar-fudd-daliadau**

Os cewch unrhyw un o'r budd-dalidau canlynol, efallai na fyddwn yn gallu talu Lwfans Gofalwr i chi:

- Pensiwn y Wladwriaeth
- Budd Analluogrwydd
- Lwfans Anabledd Difrifol
- Atodiad i'r Anghyflogadwy - wedi'i dalu gyda Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol neu Bensiwn Rhyfel
- Pensiwn Gweddw neu Lwfans Profedigaeth
- Lwfans Mam Gweddw neu Lwfans Rhiant Gweddw
- Pensiwn Rhyfel Gwraig Weddw neu Ŵr Gweddw
- Lwfans Mamolaeth
- Budd-dal Marwolaeth Ddiwydiannol
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar gyfraniadau
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau.

Gelwir hyn yn 'reol budd-daliadau sy'n gorgyffwrdd'. Mae'n golygu na allwch fel arfer gael 2 fudd-dal sy'n disodli incwm, fel Lwfans Gofalwr a Phensiwn y Wladwriaeth, ar yr un pryd.

Hyd yn oed os cewch unrhyw un o'r budd-daliadau hyn, gallai fod yn werth gwneud cais am Lwfans Gofalwr. Efallai y bydd eich budd-dalidau eraill yn cael eu cynyddu os oes gennych 'hawl gwaelodol' i Lwfans Gofalwr. Mae cael hawl gwaelodol yn golygu eich bod yn bodloni'r holl amodau i gael budd-dal ond yn ôl y gyfraith na allwn dalu unrhyw arian i chi mewn gwirionedd. Gall hyn fod oherwydd eich bod eisoes yn cael budd-dal tebyg ac mae'r rheolau yn dweud na allwch gael y ddau. Os yw swm y budd-dal arall a gewch yn llai na swm y Lwfans Gofalwr y gallech ei gael, byddwn yn talu'r gwahaniaeth i chi.

Os yw rhywun yn cael unrhyw un o'r budd-daliadau a restrir ar **dudalen 8** ac mae'r rhain yn cynnwys arian ychwanegol i chi, byddwn yn trefnu i'r arian ychwanegol stopio neu leihau. Yna byddwn yn talu'r Lwfans Gofalwr i chi.

Os ydych yn cael Budd-dal Gweddw neu fudd-daliadau profedigaeth, gwnewch gais am Lwfans Gofalwr o hyd gan efallai y gallwn roi credydau cyfraniadau Yswiriant Gwladol i chi.

Efallai bydd eich Credyd Treth Gwaith neu'ch Credyd Treth Plant yn cael ei leihau os cewch Lwfans Gofalwr. Cysylltwch â'r swyddfa Credydau Treth i gael mwy o wybodaeth. Ewch i **www.gov.uk/government/organisations/hm-revenue-customs/contact/tax-credits-enquiries** i gael mwy o wybodaeth.

## Os ydych yn gohirio hawlio eich Pensiwn y Wladwriaerth

Mae oedi cymryd eich Pensiwn y Wladwriaeth hefyd yn cael ei alw'n gohirio Pensiwn y Wladwriaeth. Ni fydd diwrnodau rydych yn cael Credyd Gofalwr wedi'i dalu i chi yn cyfrif tuag at unrhyw Bensiwn y Wladwriaeth Ychwanegol gallech ei gael pan fyddwch yn hawlio eich Pensiwn y Wladwriaeth.

Mae mwy o wybodaeth am ohirio Pensiwn y Wladwriaeth yn **www.gov.uk/oedi-pensiwn-wladwriaeth**

### Sut mae Lwfans Gofalwr yn effeithio ar fudd-daliadau'r person rwy'n darparu gofal iddo?

Gall Lwfans Gofalwr effeithio ar fudd-daliadau'r unigolyn rydych yn darparu gofal iddo, os yw'n cael premiwm anabledd difrifol gyda:

- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm
- Budd-dal Tai.

Gall eu premiwm anabledd difrifol stopio neu ostwng os cewch Lwfans Gofalwr am ddarparu gofal ar eu cyfer.

Os ydynt yn cael Credyd Pensiwn ychwanegol am anabledd difrifol, gall hefyd stopio neu ostwng.

Gall hefyd effeithio ar eu gostyngiad yn y Dreth Cyngor. Dylent gysylltu â'u cyngor lleol i ddarganfod a yw hyn yn effeithio arnynt.

Os oes gennych hawl gwaelodol i Lwfans Gofalwr, ond nad ydych yn cael unrhyw arian mewn gwirionedd, ni fydd yn effeithio ar fudd-daliadau'r unigolyn rydych yn darparu gofal iddo.

Byddwn yn gwirio cofnod y person rydych yn darparu gofal iddo cyn gwneud penderfyniad ar eich cais.

Ni fydd Lwfans Gofalwr yn lleihau neu'n stopio Taliad Annibyniaeth Personol, Lwfans Gweini a Lwfans Byw i'r Anabl y person rydych yn gofalu amdanynt.

**Cofiwch**

Rhaid i chi ddweud wrth y person rydych yn darparu gofal amdano, neu eu cynrychiolydd cyfreithiol, cyn i chi wneud cais am Lwfans Gofalwr.

## Cyfraniadau Yswiriant Gwladol (YG)

Bob wythnos rydym yn talu Lwfans Gofalwr i chi byddwn yn ychwanegu credyd cyfraniad Yswiriant Gwladol at eich cofnod Yswiriant Gwladol. Byddwn hefyd fel arfer yn rhoi credyd cyfraniad Yswiriant Gwladol i chi am unrhyw wythnos pan fydd gennych hawl i Lwfans Gofalwr ond nid ydym yn eich talu oherwydd eich bod hefyd yn cael Budd-daliadau Gweddw neu fudd-daliadau profedigaeth ar yr un gyfradd wythnosol neu'n uwch â'ch Lwfans Gofalwr.

Efallai y bydd y credydau cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1 hyn yn eich helpu i gael cyfradd sylfaenol buddion eraill yn y dyfodol, ac amddiffyn eich hawl i Bensiwn y Wladwriaeth yn y dyfodol.

Ni fyddwch yn cael credyd cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1 gyda'ch Lwfans Gofalwr:

- os ydych eisoes yn cael credydau cyfraniad Yswiriant Gwladol Dosbarth 1 gyda budd arall. Er enghraifft, efallai eich bod yn cael credydau cyfraniad gyda'ch Budd-dal Analluogrwydd neu'ch Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
- os ydych yn fenyw briod sydd wedi dewis talu cyfraniadau cyfradd is pan rydych yn y gwaith. Gallwch ddarllen am Gredyd Gofalwr isod.

# Credyd Gofalwr

Hyd yn oed os na allwn dalu Lwfans Gofalwr am gyfnod, bydd Credyd Gofalwr yn sicrhau eich bod yn cael credydau Yswiriant Gwladol i amddiffyn eich hawl i gael budd-dal Pensiwn y Wladwriaeth a budd-daliadau profedigaeth yn y dyfodol. Os na chewch Lwfans Gofalwr, bydd angen i chi wneud cais am Gredyd Gofalwr er mwyn ei gael.

Nid oes angen i chi wneud cais am Gredydau Gofalwr os ydych chi'n cael Lwfans Gofalwr - byddwch chi'n cael credydau yn awtomatig.

Bydd Credyd Gofalwr yn cwmpasu cyfnodau o hyd at 12 wythnos:

- cyn i'ch hawl Lwfans Gofalwr ddechrau
- yn ystod unrhyw seibiannau mewn gofal, a
- ar ddiwedd unrhyw gyfnod o hawl Lwfans Gofalwr.

Os ydych yn fenyw briod sy'n talu cyfraniadau YG cyfradd is, ni allwn roi credyd cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1 i chi am bob wythnos rydych chi'n cael taliad Lwfans Gofalwr. Ond fe gewch Gredyd Gofalwr am bob wythnos mae hawl gennych i Lwfans Gofalwr yn ychwanegol i'r cyfnodau 12 wythnos a ddisgrifir uchod.

Os nad oes gennych hawl i Lwfans Gofalwr, neu ei fod wedi dod i ben ond eich bod yn darparu gofal i un neu fwy o bobl am gyfanswm o 20 awr neu fwy bob wythnos, efallai y byddwch yn dal i allu cael Credyd Gofalwr.

I ddarganfod mwy am Credyd Gofalwr, ewch i **www.gov.uk/credyd-gofalwyr** neu ffoniwch **0800 731 0297**.

# Bonws Nadolig

Ychydig cyn y Nadolig bob blwyddyn byddwch yn cael Bonws Nadolig di-dreth gyda'ch Lwfans Gofalwr, os nad ydych eisoes yn cael Bonws Nadolig gyda budd-dal arall.

# Sut i gysylltu â'r Uned Lwfans Gofalwr

**Cofiwch**

Y ffordd gyflymaf a hawsaf i wneud cais am Lwfans Gofalwr yw ar-lein. Ewch i **www.gov.uk/lwfans-gofalwr**

Ein rhif ffôn yw **0800 731 0297**.

Os oes gennych anawsterau ar eich lleferydd neu ar eich clyw, gallwch gysylltu â ni drwy ddefnyddio ffôn testun ar **0800 731 5312**.

Mae'r llinellau hyn ar agor rhwng 8am a 6pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Os ydych am ysgrifennu atom ni, ein cyfeiriad yw:

Carers Allowance Unit
Mail Handling Site A
Wolverhampton
WV98 2AB

Rhowch wybod i ni os nad Saesneg na Chymraeg yw eich iaith gyntaf a hoffech ddefnyddio ein gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

## Ble i gael mwy o help a chyngor

- gallwch gael mwy o wybodaeth am Lwfans Gofalwyr yn **www.gov.uk/lwfans-gofalwr**
- os ydych am gael cyngor a gwybodaeth gyffredinol am fudd-daliadau neu hawliau, cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith. Mae'r rhif ffôn a'r cyfeiriad yn adran rhifau busnes y llyfr ffôn o dan 'Jobcentre Plus'. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth a ffurflenni cais ar-lein yn **www.gov.uk/browse/benefits**
- os ydych am gael gwybod am fudd-daliadau neu hawliau i bobl anabl, ewch i **www.gov.uk/browse/benefits**
- gallwch gael help mewn canolfan gynghori fel y swyddfa Canolfan Cyngor ar Bopeth
- gallwch gysylltu â Carers UK i gael cyngor ar ystod o faterion.

Eu rhif llinell gymorth yw rhadffôn **0808 808 7777**. Neu ewch i wefan Carers UK yn **www.carersuk.org**

I gael gwybodaeth am gymorth ariannol, hawliau, sefydliadau gofalwyr, cyflogaeth, byw'n annibynnol a llawer mwy, ewch i **www.gov.uk/cymraeg**

Cadwch y nodiadau hyn mewn man diogel. Nid oes angen eu dychwelyd gyda'r ffurflen.